


Haf / Summer 2023




Y Ganolfan  
Dysgu Cymraeg  
Genedlaethol —  
National Centre  
for Learning Welsh

# Newyddion

# Dysgu Cymraeg

# Learn Welsh

# Latest



[dysgucymraeg.cymru](https://dysgucymraeg.cymru)  
[learnwelsh.cymru](https://learnwelsh.cymru)



CYMR  
AEG

Dysgu  
Learn

# Y Ganolfan yn cefnogi uchelgais y Papur Gwyn: Bil Addysg Gymraeg

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn croesawu ac yn cefnogi uchelgais y [Papur Gwyn: Bil Addysg Gymraeg](#).

Mae'n gefnogol i'r bwriad o sefydlu a gweithredu un continwwm sgiliau Cymraeg, er mwyn hwyluso taith iaith pob unigolyn yng Nghymru.

Mae'r Ganolfan yn falch iawn o'r gwaith sydd wedi digwydd yn y sector Dysgu

Cymraeg i oedolion. Mae'r Ganolfan bellach yn siop-un-stop ar gyfer dysgu'r iaith i oedolion, ac mae wedi ymestyn ei darpariaeth yn ddiweddar i bobl ifanc 16-18 oed.

Mae'r Ganolfan mewn sefyllfa gref i ymestyn ei gwaith ymhellach a rhannu ei harbenigedd, gan weithio gyda phartneriaid i gefnogi dysgwyr wrth iddynt ddod yn siaradwyr Cymraeg.

## Centre supports proposals for new Welsh Language Education Bill

The National Centre for Learning Welsh welcomes and supports the ambition set out in the [Welsh Language Education: white paper](#).

It supports the aim to establish and implement one Welsh language skills continuum, in order to facilitate the language journey of each individual in Wales.

The Centre is proud of the work achieved in the Learn Welsh sector for adults. The Centre is a one-stop-shop for teaching the language to adults, and has recently extended its services to young people aged 16-18.

The Centre is in a strong position to extend its work further and share its



expertise, working with partners to support learners as they become Welsh speakers.

# Croesawu Lowri a Meinir

Mae'r Ganolfan wedi newid ei strwythur wrth i'w gwaith ymestyn i feysydd newydd, gan benodi dau gyfarwyddwr newydd.

Penodwyd Lowri Bunford-Jones yn Gyfarwyddwr Cynllunio a Datblygu. Bu Lowri yn Gyfarwyddwr Dysgu Cymraeg Caerdydd, un o ddarparwyr cyrsiau'r Ganolfan, sy'n cael ei gynnal gan Brifysgol Caerdydd. Yn ei rôl newydd, bydd yn gyfrifol am brosiectau arbennig megis 'Cymraeg Gwaith',

cynllun i gryfhau sgiliau Cymraeg mewn gweithleoedd.

Penodwyd Meinir Ebbsworth yn Gyfarwyddwr Strategol, rôl newydd i'r Ganolfan. Bu Meinir yn Brif Swyddog Addysg Cyngor Sir Ceredigion. Bydd yn arwain Cyfarwyddiaeth Strategol newydd y Ganolfan, lle bydd yn gyfrifol am y ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc 16-25 oed, ymhlið prosiectau eraill. Croeso cynnes iawn i'r ddwy!



**Lowri  
Bunford-  
Jones**



**Meinir  
Ebbsworth**

## Welcoming Lowri and Meinir

As its work has extended to new areas, the Centre has changed its structure, with the appointment of two new directors.

Lowri Bunford-Jones has been appointed Director of Planning and Development. Lowri was previously Director of Learn Welsh Cardiff, one of the Centre's course providers, run by Cardiff University. In her new role, Lowri will be responsible for special projects including 'Work Welsh', a programme to

strengthen Welsh language skills in the workplace.

Meinir Ebbsworth has been appointed the Centre's Director of Strategy, a new role. Meinir is a former Chief Education Officer for Ceredigion County Council. She will lead the Centre's new Strategic Directorate, where she will be responsible for the provision for 16-25 year-olds, among other projects. Croeso cynnes – a warm welcome to both!

# Partneriaeth gyda'r Urdd

Bydd [rhaglen Dysgu Cymraeg yn cael ei rhoi ar waith gyda'r Urdd](#), er mwyn cefnogi nod y mudiad o ddenu gweithlu amrywiol, ac o gysylltu ymhellach â chynulleidfa oedd newydd ledled Cymru.

Bydd cefnogaeth tiwtor ymhllith yr hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu gan y Ganolfan, fel rhan o bartneriaeth newydd rhwng y ddau sefydliad.

Yn y lle cyntaf, bydd y tiwtor yn gweithio gyda'r Adran Chwaraeon, Prentisiaethau a'r Gwersylloedd, i roi gwensi i aelodau staff sydd ddim yn siarad llawer o Gymraeg neu sy'n llai hyderus eu sgiliau Cymraeg.



## Partnership with the Urdd

A new [Learn Welsh training programme is to be introduced at the Urdd](#), to support the youth organisation's aim of attracting a diverse workforce and of engaging further with new audiences across the whole of Wales.

Tutor support will be included in the training package, which is being provided by the National Centre as part of a new partnership between both organisations.

In the first instance, a tutor will work with the Sport, Apprenticeships and Centres Department, to provide Welsh lessons to staff members who don't speak much Welsh or who are less confident with their Welsh language skills.





**Y criw o Gymru gyda rhai o wirfoddolwyr Voluntariat per la Llengua.  
The visitors from Wales with volunteers from the Voluntariat per la Llengua.**

## Taith i Catalunya

Yn ddiweddar aeth criw o'r Ganolfan a'i darparwyr cyrsiau i Barcelona, Catalunya, i ddysgu mwy am 'Voluntariat Per La Llengua', sy'n sail i gynllun 'Siarad' y Ganolfan, sy'n paru dysgwyr a siaradwyr Cymraeg. Cyllidwyd yr ymweliad gan 'Taith', cynllun Llywodraeth Cymru i annog rhannu arferion da yn rhyngwladol.

Mae'r 'Voluntariat' ar waith ers 2002, ac mae'n cael ei gefnogi gan siopau a chwmniâu lleol, er mwyn hybu defnydd o'r iaith Gatalaneg yn y gymuned. Mae'r cynllun yn dathlu dyddiadau a cherig milltir pwysig, ac mae parau yn derbyn cerdyn aelodaeth.

Dysgwyd nifer o bethau ar yr ymweliad, gan gynnwys y pwyslais ar integreiddio'r cynllun gyda gweithgareddau cymunedol ac ar ddathlu llwyddiannau. Yn dilyn y daith, bydd y Ganolfan yn datblygu cynllun gweithredu gyda'i darparwyr.



## Trip to Catalonia

A team from the Centre and its course providers recently visited Barcelona, Catalonia, to learn more about 'Voluntariat Per La Llengua', on which the Centre's 'Siarad' scheme, which pairs Welsh learners and speakers, is based. The visit was funded by 'Taith', the Welsh Government's learning exchange programme.

The 'Voluntariat' has been in operation since 2002, and is supported by local shops and companies, to promote the use of the Catalan language in communities. The scheme celebrates important dates and milestones, and pairs receive a membership card.

A number of things were learnt on the visit, including the emphasis on both integrating the scheme with community activities and on celebrating successes. Following the visit, the Centre will develop an action plan with its providers.



## Denu dysgwyr newydd

Bydd cyrsiau newydd ar gyfer dechreuwyr yn dechrau ym mis Medi, gyda chyfleoedd i ddilyn cwrs blwyddyn am £45 yn unig (mae cyrsiau am ddim ar gyfer pobl ifanc a'r gweithlu addysg). Mae cyrsiau hefyd ar gael ar lefelau dysgu eraill – defnyddiwch y chwilotwr ar [dysgymraeg.cymru](https://dysgymraeg.cymru) i ddod o hyd i gwrs.

**Croeso - Enjoy learning Welsh with us.**

Dysgwch Gymraeg gyda ni.



## Attracting new learners

New courses for beginners will start in September, with opportunities to take a one-year course for just £45 (courses are free for young people and the education workforce). Courses are also available at other learning levels – please use the course finder on [learnwelsh.cymru](https://learnwelsh.cymru) to find a course.

# Croeso cynnes Tafwyl a'r Eisteddfod Genedlaethol

Bydd croeso cynnes i ddysgwyr yn ngŵyl Gymraeg Caerdydd, [Tafwyl](#), 15-16 Gorffennaf, ac yn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd, 5-12 Awst.

Bydd sgwrs gyda Noel Mooney, Prif Weithredwr Cymdeithas Bêl-droed Cymru, yn cael ei chynnal yn Nhafwyl. Mae'r Ganolfan yn gweithio gyda Noel a'r Gymdeithas i ddarparu hyfforddiant Cymraeg i'r mudiad, ac i hyrwyddo'r iaith ar lawr gwlad.

Bydd cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn ymhlið uchafbwyntiau'r Eisteddfod Genedlaethol, gyda llu o weithgareddau ym Maes D, y pentref Dysgu Cymraeg, a digon o gyfleoedd i fwynhau'r Gymraeg. Mae mwy o wybodaeth ar [wefan yr Eisteddfod](#).



## A warm welcome at Tafwyl and the National Eisteddfod

Welsh learners will be warmly welcomed at Cardiff's Welsh language festival, [Tafwyl](#), 15-16 July, and at the Llŷn ac Eifionydd National Eisteddfod, 5-12 August.

There will be a talk with Noel Mooney, Chief Executive of the Football Association of Wales, at Tafwyl. The Centre works with Noel and the FAW to provide Welsh language training to the association, and to promote the language at a grass roots level.

The Learner of the Year competition will be among the highlights at the National Eisteddfod, with a host of activities in Maes D, the Learn Welsh village, and plenty of opportunities to enjoy the Welsh language. More information can be found on the [Eisteddfod website](#).





dysgucymraeg.cymru  
learnwelsh.cymru



Dysgu  
Learn